
# Dechreuwch y Daith Ddwyieithog. Dewiswch Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen.




# Bod yn Ddwyieithog **yn Nhorfaen**

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

02 Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

05 Beth yw'r manteision o fod yn ddwyieithog?

06 Cwestiynau Cyffredin.

09 Sut mae Cymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg?

10 Beth mae pobl eraill yn dweud?

12 Y Daith.

14 Beth nesaf?

16 Ychydig o gymorth.

Mae arbenigwyr yn amcangyfrif bod mwy na hanner poblogaeth y byd yn gallu siarad mwy nag un iaith – rhowch gyfle i'ch plentyn wneud yr un peth hefyd.



Cymraeg



Yn Nhorfaen, mae bron i 8,641 o bobl yn siarad Cymraeg ac mae tua 9.94% o'n plant eisoes yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'n 4 o ysgolion Cymraeg.

Oeddech chi'n gwybod bod bron i 98% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen yn dod o gartrefi di-gymraeg?

Gweithio gyda'n gilydd i'ch cefnogi trwy gydol y daith ddysgu.

# Beth yw ystyr bod yn ddwyieithog?

## Y gallu i fyw eich bywyd pob dydd gyda dwy iaith.

Fel rhiant, penderfynu ar addysg eich plentyn fydd un o'ch penderfyniadau pwysicaf. Gall mwy a mwy o rieni dystio bod dewis addysg Gymraeg i'w plant wedi bod yn ddewis cadarnhaol a gwerth chweil ac yn fantais wrth ddechrau mewn gwaith.

- **Rydym wedi llunio'r llyfryn yma i ateb eich cwestiynau a gadael i chi wybod pam ei fod yn wych bod yn ddwyieithog.**
- **Mae'r llyfryn yma hefyd yn mapio taith addysg cyfrwng Cymraeg clir i'ch plentyn, a chi, trwy'r cyfnod cyn ysgol a'r cyfnod ysgol o'r meithrin, i'r ysgolion cynradd ac uwchradd, addysg bellach a thu hwnt.**

Dewiswch addysg Gymraeg i'ch plentyn a byddan nhw'n rhan o filiwn o siaradwyr Cymraeg Cymru erbyn 2050.




Lles
ATLANTIC
OCEAN
SOUTH AMERICA



# Beth yw'r manteision o fod yn ddwyieithog?

## Addysg

- Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod yn fwy llwyddiannus mewn addysg ac yn perfformio'n well mewn tasgau.
- Mae pobl ddwyieithog yn ei chael yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol.
- Mae plant mewn addysg Gymraeg yn gwneud cystal, os nad yn well, mewn Saesneg â phlant mewn addysg cyfrwng Saesneg.

## Gyrfa

- Mae siarad dwy iaith yn sgil ychwanegol i'w roi ar eich ffurflen gais.
- Mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% yn fwy ar gyfartaledd.
- Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am staff dwyieithog fel y gallan nhw gynnig y gwasanaeth dwyieithog gorau.

## Iechyd

- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn oedi cychwyn Dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.

## Bywyd

- Mae siarad dwy iaith yn ehangu'ch gorwelion.
- Mae siarad Cymraeg yn rhoi mynediad i chi at nifer o agweddau o ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Gymreig.
- Gall siarad Cymraeg fod yn allwedd i fywyd cymunedol, cyfoethog.
- Mae siarad Cymraeg yn rhoi synnwyr cryf o hunaniaeth a pherthyn i chi.
- Mae amnewid rhwng ieithoedd yn rhoi hunanhyder a balchder i chi.
- Mae siarad mwy nag un iaith yn eich galluogi i ddeall diwylliannau eraill yn well.




**TYSTIOLAETH:**

- Adroddiad 'The Advantages of Bilingualism in Welsh and English' gan yr Athro Colin Baker
- Adroddiad Estyn – Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3
- Mae plant â dwy iaith yn rhagori yn yr ysgol – Erthygl yn The Times
- Siaradwyr Cymraeg 'yn fwy tebygol o gael cymwysterau uwch a swyddi' – Erthygl Wales Online
- Erthygl 'Delaying the onset of Alzheimer disease' gan Fergus I.M Craik, PHD, Ellen Bialystock, PHD a Morris Freedman, MD.
- Pobl ddwyieithog ddwywaith fwy tebyg o wella o strôc – Erthygl The Telegraph

# Cwestiynau Cyffredin.

## Ond dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg!

Rydym yma i helpu! Cewch hyd i systemau cefnogaeth sefydledig yn Saesneg a Chymraeg yn y rhan fwyaf o ysgolion, felly gall rhieni a gofalwyr gefnogi dysgu plant yn eu cartref.

## Beth am eu sgiliau iaith Saesneg?

Peidiwch â phoeni! Mae plant yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg pan fyddan nhw'n gadael ysgol gynradd Gymraeg.

## Pam addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae ansawdd yr addysg yn ardderchog. Mae'n hawdd dysgu iaith o oedran cynnar ac mae plant yn mwynhau eu bywydau yn Gymraeg a Saesneg!

## Oes rhaid iddyn nhw fynd i Gylch Meithrin?

Na, does ddim angen ond gorau po gyntaf y byddan nhw'n dechrau eu cysylltiad â'r Gymraeg. Fodd bynnag, gallant ddechrau eu siwrnai ar unrhyw adeg gan y byddant yn codi'r iaith yn gyflym iawn.

## Beth all fy mhlentyn wneud y tu allan i'r ysgol?

Cymerwch gipolwg ar y rhestr ddefnyddiol o sefydliadau a chymdeithasau Cymraeg a dwyieithog yng nghefn y llyfryn yma – a chysylltwch â nhw!

## Sut all fy mhlentyn gyrraedd ein hysgol leol?

Rydym yma i helpu. Mae Cyngor Torfaen yn darparu trafnidiaeth ysgol i ddisgyblion sydd â'u cartref 2 filltir neu fwy o'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf, a 3 milltir neu fwy o'r ysgol uwchradd Gymraeg agosaf. Mae pob disgybl yn cael eu cludo ar fysiau diogel a chyfforddus gan unigolion sydd â chliriad diogelwch i yrru ar ran y Cyngor.

Dysgwch fwy am ein Polisi a Threfniadau yma,
***https://www.torfaen.gov.uk/cy/EducationLearning/SchoolsColleges/FinancialSupport/School-travelsupport/Transport-Entitlement.aspx***





## A fyddaf i'n gallu helpu gyda gwaith cartref fy mhlentyn?

Byddwch! Mae nifer o ysgolion yn rhoi'r gwaith yn Gymraeg a Saesneg. Beth am annog eich plentyn i esbonio'r gwaith wrthych chi'n gyntaf? Wrth iddyn nhw esbonio, byddan nhw'n mynd trwy'r broblem cam wrth gam. Mae hyn yn eu helpu i fynd i'r afael â'r hyn sydd angen iddyn nhw wneud. A chofiwch, gwaith cartref eich plentyn yw hwn, nid eich gwaith chi. Y peth mwyaf pwysig yw bod yn gadarnhaol a rhoi clod ac anogaeth!

## 'Fedra' i ddysgu Cymraeg ar yr un pryd â fy mhlentyn?

Medrwch! Mae yna ddigon o gyrsiau ar gael. Ewch at ***learnwelsh.cymru*** a chwiliwch am gyrsiau yn eich ardal a fydd yn mynd ochr yn ochr â dyddiadau tymor ein hysgolion.



# Sut mae Cymraeg yn cael ei dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg?

Pan fo plant yn dechrau dysgu Cymraeg, byddan nhw'n cael eu trochi yn yr iaith o'r cychwyn. Bydd staff yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i alluogi disgyblion i ddeall pan fo eu Cymraeg yn gyfyngedig ac yn rhoi cefnogaeth briodol ac ymyrraeth i ymwreiddio'r iaith.

- **Cymraeg yw iaith yr addysg o'r Meithrin tan Flwyddyn 2 a bydd y plant wedyn yn cael gwersi mewn Saesneg ym Mlwyddyn 3 ac yn defnyddio Saesneg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm.**
- **Mae'r dull yma o ddysgu'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol a'i ddefnyddio mewn gwledydd fel Canada a Gwlad y Basg.**

## Hwyrddyfodiaid

Gallwch ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar unrhyw adeg yn ystod y daith. Nid ydym yn cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion ar hyn o bryd i drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond, mae darpariaeth trochi yn ddatblygiad allweddol yng Nghynllun newydd Cymraeg mewn Addysg Torfaen 2022-32. Cofiwch nad oes rhaid iddyn nhw fynychu Cylch Meithrin i ddechrau mewn ysgol gynradd Gymraeg. Diddordeb? Cysylltwch â'ch ysgol Gymraeg leol (manylion ar dudalen 14 ymlaen) neu Gyngor Torfaen am fwy o wybodaeth: ***admissions@torfaen.gov.uk***

# Beth mae pobl eraill yn ei ddweud?

Nid Cymraeg oedd fy newis cyntaf, ond ar ôl siarad â ffrind oedd wedi danfon ei phlant i ysgol Gymraeg a thrafod buddion bod yn ddwyieithog, fe benderfynais i. Does dim llawer o gyfleoedd yn y DU i ddysgu a siarad dwy iaith yn rhugl, rydym mor ffodus i gael y cyfle yma yng Nghymru.

Mae addysg Gymraeg wedi cyflwyno fy mhlant i'r Urdd, yr Eisteddfod a Llangrannog gyda diwylliant, treftadaeth a thraddodiad Cymreig yn flaengar. Dawnsio gwerin, storïau traddodiadol, cerddi, diwrnod Santes Dwynwen, mae'r rhain i gyd yn gyfleoedd mae fy mhlant wedi cael i gofleidio diwylliant Cymreig a mwynhau dysgu'r iaith hyfryd. Mae Ysgol Bryn Onnen wedi bod yn ysgol anhygoel i roi awyrgylch dysgu gwych i fy mhlant gyda staff cynnes, cyfeillgar yn rhoi'r addysg orau.

Roberta Nash, rhiant yn Ysgol Bryn Onnen, Pont-y-pŵl

Rhoddodd addysg Gymraeg y cychwyn gorau mewn bywyd i fy mhlant. Maen nhw'n gwbl ddwyieithog a bydd hyn yn agor cryn dipyn mwy o gyfleoedd yn y dyfodol.

Martin Redwood, tad i ddau

Mae mynd i ysgol Gymraeg yn helpu plant i ddysgu am eu diwylliant. Mae'n rhoi cyfleoedd gwych i blant i ddysgu ac yn eu gosod ar lwybr tuag at y dyfodol.

Sandra Bartlett Jones, mam i ddau

Roedd dewis Ysgol Gymraeg bob amser yn debygol ac, o ganlyniad, mae ein dwy ferch yn ffynnu gydag un yn y meithrin a'r llall yn y dosbarth derbyn. Rydym yn hapus gyda'r ysgol a'r ffordd y maen nhw'n agor bywydau'n merched i'r iaith Gymraeg a'r cyfleoedd y bydd hyn yn creu yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Rebecca Renshaw, rhiant yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân



Fel rhieni sydd wedi ein magu mewn cartrefi Cymraeg iaith gyntaf ac ar ôl mynd trwy addysg Gymraeg, roedd rhoi'r un cyfleoedd dysgu cyfoethog i'n plant yn rhywbeth yr oeddem yn frwdfrydig amdano. Gallu rhoi'r teimlad o falchder yn eu diwylliant a threftadaeth iddyn nhw, y gallu i feddwl yn greadigol a chyfathrebu mewn dwy iaith.

Emma Rogers, Rhiant



# Y Daith.

**0-2**
OED

## Cymraeg i Blant

Mae Cymraeg i Blant yma i'ch cefnogi fel rhieni newydd i siarad a defnyddio ychydig bach o Gymraeg gyda'ch baban.

Ymunwch â'n grwpiau cymorth wythnosol am gyngor ymarferol ar sut i ddefnyddio llyfrau ac apiau dwyieithog gartref.

Cofrestrwch ar gyfer ein grwpiau am ddim: tylino ac ioga babanod, amser rhigwm Cymraeg, Fi a fy maban a Phaned a Sgwrs ym **meithrin.cymru**

## Cylch Ti a Fi

Gallwch fynd â'ch baban i grŵp rhieni a phlant bach 'Ti a Fi' ble mae plant yn chwarae gyda'i gilydd, yn gwrando ar storïau Cymraeg a chanu caneuon Cymraeg. Mae yna dros 500 o grwpiau ledled Cymru ac mae croeso cynnes i rieni a gofalwyr di-Gymraeg.

**2-4**
OED

## Clwb Cwtsh

Yn cyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg i rieni a gofalwyr eu defnyddio gartref gyda'u plant ifanc.

## Cylch Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn Fudiad Cenedlaethol gyda chylchoedd meithrin (grwpiau meithrin) ar draws Cymru ar gyfer plant o ddwy oed nes iddynt fynd i'r ysgol gynradd.



**3-4** OED

## Uned Meithrin

Mae gan rai ysgolion cynradd unedau Cymraeg neu ddwyieithog i blant tair oed.

**4-11** OED

## Ysgol Gynradd

Mae addysg Gymraeg yn cael ei chynnig ym mhob sir yng Nghymru. Cymraeg yw prif iaith yr ystafell ddosbarth a'r iard mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd eich plant yn astudio ac yn cymdeithasu yn Gymraeg.

**11-18** OED

## Ysgol Uwchradd

Mae gennym un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd eich plentyn yn astudio'r rhan fwyaf o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac yn cymryd rhan ym mywyd dwyieithog llawn yr ysgol er mwyn eu galluogi i chwarae rhan annatod yn eu cymuned a symud ymlaen at addysg bellach ac uwch fel sy'n briodol.

**16+** OED

## Addysg Bellach

Mae nifer o golegau yng Nghymru hefyd yn cynnwys cyrsiau yn Gymraeg. Cysylltwch yn uniongyrchol am ragor o wybodaeth.

## Addysg Uwch


Mae Prifysgolion Cymru'n cynnig cyrsiau Israddedig ac Ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgoloriaethau ar gael hefyd i ddisgyblion sy'n astudio trwy'r Gymraeg.

# Beth nesaf?

- Defnyddiwch ein cyfeiriadur i ddarganfod eich darpariaeth agosaf.
- Cysylltwch â nhw a rhowch wybod iddyn nhw bod gennych ddiddordeb mewn cofrestru eich plentyn.
- Dechreuwch eich taith ddwyieithog trwy ddewis dyfodol cyfrwng Cymraeg i chi a'ch teulu.

| Darpariaeth | Nifer o leoliadau | Ymddangosiad ar fap |
|---|---|---|
| Lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg a ariennir mewn lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg | 2 |  |
| Darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn darparu Meithrin | 2 |  |
| Cylchoedd Meithrin yn Nhorfaen ar gyfer plant 2-5 oed | 4 |  |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol Cyfrwng Cymraeg Annibynnol | 3* |  |
| Gofalwyr Plant Dwyieithog | 2 |  |

* Bydd un clwb ar ôl ysgol yn cynnig gofal dydd llawn yn gynnar yn 2022.


BLAENAFON
A4043
PONT-Y-PŴL
A4043
A4042
A472
A472
A4042
A4051
A4042
CWMBRÂN
A4051

# Ychydig o gymorth.

## Cymraeg i Blant

Mae Cymraeg i Blant yn cynnig cymorth, cyngor a gwybodaeth i ddarpar rieni a rhieni newydd ynglŷn â sut i gyflwyno Cymraeg i'r cartref ar ôl genedigaeth.

**www.meithrin.cymru/cymraeg-for-kids**

Cymraeg i Blant Torfaen

@Cymraegforkids

cymraegiblant@meithrin.cymru

01970 639639

## Mudiad Meithrin

Maent yn trefnu grwpiau rhieni a phlant bach 'Ti a Fi'. Mae'n cynnig grwpiau Meithrin i blant o ddwy flwydd oed tan oedran ysgol gynradd.

**www.meithrin.cymru**

Mudiad Meithrin

@Mudiad Meithrin

post@meithrin.co.uk

01970 639639

## Dysgu Cymraeg Gwent

Eich siop un tro os ydych am ddysgu neu wella'ch Cymraeg. Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent yn darparu cyrsiau ar bob lefel yn yr ardal, gyda dewis eang o ddiwrnodau ac amserau.

Os oes gyda chi blant o dan 7 oed, chwiliwch am gyrsiau Cymraeg i'r Teulu.

**www.learnwelsh.cymru**

Cymraeg i Oedolion Gwent

@CanolfanCymraegiOedolion GwentWelshForAdultsCentre

welsh@coleggwent.ac.uk

01495 333710

## Cymraeg i Rieni

Cyfeiriadur yw safle Welsh4Parents sy'n cynnwys dolenni at amrywiaeth eang o adnoddau iaith Gymraeg sydd ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau digidol.

**www.Welsh4Parents.cymru**

Rhieni Dros Addysg Gymraeg

@RhAG1

help@parents4welsh.cymru

Urdd

## Yr Urdd

Mudiad Ieuenctid sy'n cynnig cyfleoedd a digwyddiadau i bobl ifanc Cymru (hyd at 25 oed). Mae'n fudiad bywiog sy'n rhan o fywydau plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, trwy chwaraeon, cerddoriaeth, yr Eisteddfod, canolfannau preswyl a grwpiau ieuenctid.

**www.urdd.cymru**

Urdd Gobaith Cymru

@Urdd

helo@urdd.org

Menter Iaith

## Menter Iaith Torfaen

Yn darparu, hyrwyddo a chydlynu gweithgareddau a gwasanaethau celfyddydol, addysgol a diwylliannol Cymraeg yn Norfaen megis clybiau carco a grwpiau sgwrs.

**www.menterbgtm.cymru**

menterbgtm

@MenterBGTM1

01495 755861

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD)

I gael gwybodaeth am ofal plant, addysg, gweithgareddau a gwasanaethau i deuluoedd, cysylltwch â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen.

**www.torfaenfis.org.uk**

Torfaen Family Information Services

fis@torfaen.gov.uk

0800 0196330

# Eich nodiadau.

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

**Am ymholiadau pellach, cysylltwch â:**
**Tîm Derbyniadau Ysgol Cyngor Torfaen**
SchoolsAdmissions@torfaen.gov.uk
01495 766915

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

Cymraeg